

Goruchwyliaeth, cymorth
a diogelwch: Adroddiad
Blynyddol yr Awdurdod
Goruchwyllo Lleol (AGLL)
yn cynnwys Adroddiad
Archwilio Blynyddol Awdurdod
Goruchwyllo Lleol Cymru

1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017

2016-
2017

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@cymru.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1. Rhagair.....	3
2. Cyflwyniad a Chefndir	5
Ein swyddogaeth fel Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru a sut rydym yn ei chyflawni	5
Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol.....	7
3. Adran 1.....	9
3.1 Darparu goruchwyliaeth effeithiol	9
3.2 Cyd-destun gwleidyddol a rheoleiddiol ehangach goruchwylio statudol.....	9
3.3 Y Gymhareb o Oruchwylwyr Bydwragedd i Fydwragedd	11
3.4 Penodi goruchwylwyr bydwragedd, dad-ddethol, ymddiswyddo a chaniatâd i fod yn absennol.....	12
3.5 Datblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus goruchwylwyr bydwragedd .	13
(Datblygiad Proffesiynol Parhaus).....	13
3.6 Dulliau ar gyfer mynediad parhaus at oruchwylwyr bydwragedd	14
3.7 Ymgysylltu â sefydliadau addysg cymeradwy	16
4. Adran 2.....	17
4.1 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y broses o oruchwylio.....	17
4.2 Trosolwg o weithgarwch archwilio'r AGLI.....	18
4.3 Polisiâu cenedlaethol a lleol yn ymwneud â goruchwylio.....	19
5. Adran 3.....	20
5.1 Sicrhau y cynhelir ymchwiliadau i ymarfer is-optimaidd	20
5.2 Cwynion ynglŷn â chyflawni'r swyddogaeth oruchwylio	22
6. Adran 4.....	24
6.1 Arfer Nodedig ac Arloesol	24
6.2 Rhannu arfer da.....	25
6.3 Edrych i'r dyfodol	25

1. Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol terfynol hwn ar gyfer 2016 – 2017 ar sicrwydd ansawdd Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru (AGLIC). Roedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cyflawni swyddogaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ar ran Gweinidogion a dinasyddion Cymru ac felly roedd yn gyfrifol am sicrhau bod goruchwyliaeth statudol pob bydwaig wedi'i chyflawni i safon foddhaol ledled Cymru.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn edrych yn ôl ar yr Awdurdod Goruchwylio Lleol a gweithgareddau goruchwylio yn ystod 2016-2017, yn ogystal ag edrych ymlaen at ddyfodol goruchwylio bydwragedd yng Nghymru gyda'r model newydd ar gyfer Goruchwylwyr Clinigol Bydwragedd (CSfM) a arweinir gan gyflogwyr yn dilyn diddymiad goruchwyliaeth statudol ar 31 Mawrth 2017.

Gwnaeth cyflwyniad yr AGLI o fodel arloesol ar gyfer darparu goruchwyliaeth yn ystod 2014 sicrhau bod gwerthoedd goruchwylio statudol yn cael eu hymgorffori'n llwyr yn y gwasanaethau mamolaeth. Mae gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol wedi sicrhau bod llwyddiannau'r model hwn, gan gynnwys y cymorth i fydwragedd newydd gymhwyso yn ystod eu blwyddyn gyntaf o gymhwyso, ynghyd â datblygu Pasbort Tiwtoriaeth a rhoi cymorth i fydwragedd yn ystod gweithredu'r Ailddilysu a model goruchwylio grŵp arloesol wedi paratoi'r ffordd ar gyfer datblygu model Goruchwylio Clinigol newydd i Fydwragedd.

Mae'r AGLI wedi gwneud cyfraniadau mawr i'r model goruchwylio newydd ers i'r Prif Swyddog Nyrsio sefydlu tasglu. Diben y Tasglu oedd datblygu a gweithredu model newydd i'r bwrdd iechyd, gan sicrhau bod holl agweddau goruchwylio statudol wedi'u cynnwys, fel modd o sicrhau bod bydwragedd yn parhau i gael eu cefnogi yn eu gwaith, ac yn cael gwared ag agweddau rheoleiddio'r gwaith.

O 1 Ebrill 2017, bydd swyddogaeth yr AGLI yn dod i ben a bydd pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn penodi CSfMs i arwain a chefnogi rhagoriaeth mewn ymarfer bydweigiaeth. Bydd gwaith y CSfM yn seiliedig ar egwyddorion craidd goruchwylio statudol. Bydd y gwaith o gyflenwi'r egwyddorion hyn yn cael ei fonitro trwy weithredu dangosyddion perfformiad allweddol, gan sicrhau bod arferion da a gwersi a ddysgwyd yn parhau i gael eu rhannu.

Kate Chamberlain – Prif Weithredwr

2. Cyflwyniad a Chefndir

Er mwyn sicrhau ymarfer bydwreigiaeth diogel ac effeithiol, roedd hi'n ofynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001)¹, gynnal cofrestr o fydwragedd cymwysedig, a sefydlu rheolau a safonau medruswydd.

Roedd Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001) hefyd yn cyflwyno gofynion statudol bod pob bydwraig yn destun goruchwyliaeth. Diben sylfaenol goruchwyliaeth yw gwella diogelwch menywod a babanod trwy hyrwyddo a chefnogi safonau diogel o ymarfer bydwreigiaeth mewn ffordd weithredol.

Cyflawnodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) swyddogaeth Awdurdod Goruchwyllo Lleol (AGLI) Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. Roedd yn gyfrifol felly am sicrhau bod goruchwyliaeth statudol pob bydwraig, fel sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001) a Rheolau a Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)², wedi'i harfer i safon foddhaol ledled Cymru.

Ein swyddogaeth fel Awdurdod Goruchwyllo Lleol Cymru a sut rydym yn ei chyflawni

Roedd gan AGLI Cymru gyfrifoldeb i wneud y canlynol:

- Bod ar gael i fenywod os oeddent yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar eu gofal bydwreigiaeth yr oeddent o'r farn na roddwyd sylw iddi trwy sianelau eraill
- Darparu fframwaith o gefnogaeth ar gyfer ymarfer goruchwyllo a bydwreigiaeth
- Derbynn data Bwriad i Ymarfer ar gyfer pob bydwraig sy'n ymarfer yn yr AGLI
- Sicrhau bod pob bydwraig wedi bodloni'r gofynion statudol ar gyfer ymarfer
- Darparu datblygiad proffesiynol parhaus i oruchwylwyr
- Ymchwilio i achosion o gamymddwyn honedig neu ddiffyg cymhwysedd
- Penderfynu a ddylid gwahardd bydwraig rhag ymarfer, yn unol â Rheol 14³ Rheolau a Safonau Bydwreigiaeth (Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012)
- Arwain datblygiad safonau ac archwilio goruchwyliaeth.

¹ Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (Y Gorchymyn).

<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2002/253/contents/made>

² Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012, rheolau a safonau bydwreigiaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

³ Rheol 14 rheolau a safonau bydwreigiaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn ymwneud â gwaharddiad ymarfer gan awdurdod goruchwyllo lleol.

AGLI Cymru



Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Er mwyn ei galluogi i ddarparu yn unol â'r cyfrifoldebau uchod, penododd AGIC ddau Swyddog Bydwreigiaeth (SB AGLI) a oedd yn gyfrifol am wneud y canlynol ar ran AGIC:

- Arwain datblygiad safonau ac archwilio goruchwyliaeth ar draws yr Awdurdod Goruchwylio Lleol
- Penodi Goruchwylwyr Bydwragedd
- Darparu cyswllt ffurfiol rhwng bydwragedd, Goruchwylwyr Bydwragedd a'r cyrff statudol
- Darparu fframwaith ar gyfer cefnogi goruchwyliaeth bydwragedd ac ymarfer bydwreigiaeth o fewn ei therfynau
- Cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a hwyluso rhaglenni paratoi goruchwylwyr bydwragedd, a'u datblygu'n barhaus
- Sicrhau bod goruchwylwyr bydwragedd wedi gallu bodloni'r cymwyseddau a nodwyd yn y Safonau ar gyfer Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd [(Rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd) Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2014⁴]
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a hybu gwaith partneriaeth gyda menywod a'u teuluoedd.

Cynrychiolodd Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI Gymru yn fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y Deyrnas Unedig (DU), a chyfarfodydd Grŵp Cyfeirio Strategol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth/Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI, gan sicrhau bod materion a safbwyntiau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn. Roedd ganddynt gyfrifoldeb hefyd dros gynnal perthynas waith da â Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am bolisiau mamolaeth, Prif Swyddog Nyrsio Cymru, y Cynghorydd Proffesiynol ar Fwrdd Cymru Coleg Brenhinol Bydwragedd y DU, Penaethiaid Grŵp Cynghori Bydwreigiaeth Cymru Gyfan, a'r Grŵp Bydwragedd Arweiniol ar gyfer Addysg yng Nghymru.

Roedd y cyfrifoldeb am oruchwylio'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth ar draws byrddau iechyd ac ardaloedd daearyddol penodol Cymru wedi'i roi i Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI, fel y nodir isod;

Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, Sue Jose (tan fis Hydref 2017) ac yna Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, Lindsey Hilldrup:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABM)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCU)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (CT)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (HD)

Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, Maureen Wolfe:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABU)

⁴ NMC 2014 Standards for the preparation of supervisor of midwives
<http://www.nmc.org.uk/globalassets/siteDocuments/NMC-Publications/NMC-Standards-for-preparation-of-supervisors-of-midwives.pdf>

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (C&V)
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (PtHB)

Cwblhaodd Sue Jose ei daliadaeth benodedig ar secondiad gyda Llywodraeth Cymru, ac fe ddychwelodd i'r GIG ym mis Hydref 2016, yn rhinwedd ei phenodiad llwyddiannus fel Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth ABM. Hoffai'r AGLI ddiolch i Sue am ei chyfraniad gwerthfawr yn ystod ei chyfnod fel Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI. Olynydd Sue ar gyfer swydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI oedd Lindsey Hilldrup, a ymgwymerodd â'r swydd yn llawn amser ar 15 Awst 2016. Yn flaenorol, bu Lindsey yn oruchwylydd bydwragedd llawn amser yng Nghymru ac yn fydwraig glinigol cyn ei phenodiad fel Swyddog Bydwreigiaeth gyda'r AGLI.

3. Adran 1

3.1 Darparu goruchwyliaeth effeithiol

Roedd yr AGLI yn gyfrifol am ddarparu goruchwyliaeth statudol effeithiol a oedd yn seiliedig ar y model 'Diogelu'r Dyfodol' a gyflwynwyd yng Nghymru ym mis Awst 2014. Y brif swyddogaeth o ran diogelu menywod a babanod oedd sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth yn cyflawni eu gofynion statudol, yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) 2001 a Rheolau a Safonau Bydwagedd (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012).

Er mwyn cyflawni hyn, cyflwynwyd adroddiad chwarterol ar ddarparu, cyflawni ac asesu risg goruchwyliaeth bydwagedd i randdeiliaid allweddol, gan gynnwys adolygwyr lleyg yr AGLI. Paratowyd adroddiad chwarterol yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol canlynol:

- DPA 1** Yr AGLI i adolygu a diweddarau rhagolygon cynllunio'r gweithlu
- DPA 2** Bydd cronfa ddata'r AGLI yn cael ei defnyddio i fonitro cwblhad goruchwylwyr bydwagedd o'r cynllun datblygu proffesiynol parhaus
- DPA 3** Bydd gan 100% o oruchwylwyr bydwagedd adolygiad goruchwyllo blynyddol ac adolygiad perfformiad unigol sefydliadol
- DPA 4** Bydd 100% o fydwragedd yn cydymffurfio â'r broses Adolygu Goruchwyllo Blynyddol – hap-archwiliadau o ansawdd gan yr AGLI
- DPA 5** Bydd 100% o fydwragedd dan hyfforddiant yn gallu cadarnhau eu bod wedi cyfarfod â goruchwyllydd bydwagedd o leiaf ddwywaith y flwyddyn
- DPA 6** Bydd 100% o fydwragedd sydd newydd gymhwyso yn cyfarfod â goruchwyllydd bydwagedd o leiaf ddwywaith o fewn chwe mis a thair gwaith o fewn 12 mis i gytuno a monitro rhaglen preceptorïaeth
- DPA 7** Cadw a storio cofnodion goruchwylwyr bydwagedd (Storio diogel)
- DPA 8** Hap-archwiliadau o amseroedd ymateb ar-alwad goruchwylwyr bydwagedd – asesu tueddiadau a themâu er mwyn llywio datblygiadau gwasanaeth
- DPA 9** Monitro prydlondeb ac ansawdd yr holl broses ymchwilio

3.2 Cyd-destun gwleidyddol a rheoleiddiol ehangach goruchwyllo statudol

Ym mis Rhagfyr 2013, cyhoeddodd yr Ombudsmon Seneddol a Gwasanaethau Iechyd yn Lloegr⁵ (PHSO), eu canfyddiadau ar ôl cwblhau tri ymchwiliad i gwynion gan dri theulu a oedd yn ymwneud â goruchwyllo a rheoleiddio bydwagedd yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Morecambe Bay. Roedd adroddiad y PHSO yn cynnig newid i'r system o reoleiddio bydwagedd, yn seiliedig ar ddwy egwyddor:

⁵ Adroddiad PHSO report 2013

http://www.ombudsman.org.uk/_data/assets/pdf_file/0003/23484/Midwifery-supervision-and-regulation_-recommendations-for-change.pdf

- Y dylid gwahanu goruchwyllo a rheoleiddio bydwragedd
- Y dylai'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gymryd rheolaeth uniongyrchol dros weithgarwch rheoleiddiol.

Ym mis Ionawr 2015, cyflwynwyd adolygiad gan y Kings Fund,⁶ a gomisiynwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a oedd yn argymhell y dylai'r Cyngor gymryd rheolaeth ac atebolrwydd uniongyrchol dros y swyddogaeth graidd o reoleiddio. Argymhellodd hefyd y dylid dileu strwythur yr AGLI o'r statud am ei fod yn ymwneud â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd y Cyngor yn derbyn argymhellion yr adroddiad yn llawn. Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd y byddai'r llywodraeth yn cefnogi'r newid i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu rheoleiddiad bydwragedd.

Ym mis Rhagfyr 2016, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cadarnhaodd yr Adran lechyd y penderfyniad hwn⁷. O ganlyniad, diwygiwyd Gorchymyn Adran 60 yn y Senedd ym mis Mawrth 2017, cafodd y Gorchymyn ar Fydwrreigiaeth, ynghyd â'r Rheolau a Safonau i Fydwragedd (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth), eu dileu, gan gynnwys y cyfeiriad at oruchwyllo statudol. Cyflwynwyd model newydd o Oruchwyllo Glinigol ar gyfer Bydwragedd (CSfM) yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru⁸ ar 1 Ebrill 2017 fel model o gefnogaeth i fydwragedd a arweinir gan gyflogwyr, gan adeiladu ar yr elfennau hanfodol a roddwyd ar waith yn y model 'Diogelu'r Dyfodol' ar gyfer Goruchwyllo Bydwragedd yn 2014 yng Nghymru.

Prif effaith y newidiadau oedd dileu goruchwyllo bydwragedd o ddeddfwriaeth reoliadol. Yr oedd pob un o'r pedair gwlad wedi cael y dasg o ddatblygu ei model goruchwyllo ei hun i'w rhoi ar waith o'r 1 Ebrill 2017 ymlaen, a'r egwyddorion a oedd yn llunio system gyffredinol goruchwyllo bydwragedd a'i rhoi ar waith ar ôl dileu'r goruchwyllo statudol.

Ym mis Chwefror 2015, ymgynullwyd Tasglu, a gadeiriwyd gan y Cynghorydd Bydwreigiaeth ar ran y Prif Swyddog Nyrsio, ac roedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol a fyddai'n paratoi model oruchwyllo newydd. Bydd y model newydd yn darparu goruchwyllo glinigol i fydwragedd mewn ymarfer clinigol ac adolygiad cymheiriaid i fydwragedd nad ydynt yn gweithio mewn ymarfer clinigol ond sy'n parhau i fod yn gofrestredig. Byddai'r system newydd yn fodel proffesiynol sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i ganolbwyntio ar ei swyddogaeth reoliadol (gan gynnwys ail-ddilysu), er mwyn diogelu'r cyhoedd. Llwyddodd y Tasglu i ddefnyddio sylfeini'r model 'Diogelu'r Dyfodol' yng Nghymru, i wella a chadw elfennau goruchwyllo cefnogol i fydwragedd. Rhagwelwyd y byddai Goruchwylwyr Bydwragedd y dyfodol yn hybu datblygiad ymarferwyr myfyriol sy'n defnyddio eu gwerthoedd proffesiynol yn unol â Chod y

⁶ The King's Fund (2015) Midwifery Regulation in the United Kingdom

⁷ Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth – diwygiadau i foderneiddio rheoliadau bydwrreigiaeth a gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd prosesau addasrwydd i ymarfer https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/582494/Consultation_report.pdf

⁸ Grouchwyllo Glinigol Bydwragedd <http://gov.wales/docs/dhss/publications/170405whc015cy.pdf>

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015)⁹. Derbyniodd y model goruchwylio newydd, sy'n seiliedig ar Oruchwyliaeth Glinigol Bydwagedd, gymeradwyaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Rhagfyr 2016, ac ymgynullodd grŵp gweithredu ym mis Chwefror 2017. Roedd Cymru felly mewn safle da i roi'r model Goruchwyliaeth Glinigol Bydwagedd newydd ar waith ar 1 Ebrill 2017.

3.3 Y Gymhareb o Oruchwylwyr Bydwagedd i Fydwagedd

Yn ystod 2016-2017, roedd Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru yn gyfrifol am benodi nifer briodol o oruchwylwyr bydwagedd er mwyn sicrhau bod gan bob bydwraig sy'n ymarfer yng Nghymru fynediad at oruchwyliaeth. Roedd Rheol 9¹⁰ Rheolau a Safonau Bydwagedd y Cyngor Nyrsio a Bydwagedd yn ei gwneud yn ofynnol na ddylai'r gymhareb Goruchwylwyr Bydwagedd i fydwagedd fod yn fwy nag 1:15 fel rheol, ond mae'n rhaid iddi, o leiaf, adlewyrchu angen ac amgylchiadau lleol, heb beryglu diogelwch menywod.

Mae'r gymhareb o oruchwylwyr bydwagedd i fydwagedd yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio fformiwla benodol, sy'n seiliedig ar yr oriau Goruchwylwyr Bydwagedd sy'n gyfwerth ag amser llawn yn ôl nifer y gweithwyr, yn hytrach na rhannu nifer y Goruchwylwyr Bydwagedd gyda'r nifer o fydwagedd sy'n cael eu cyflogi.

Ar 31 Mawrth 2017, roedd 12.9 o oruchwylwyr bydwagedd sy'n gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi. Roedd 1872 o fydwagedd wedi hysbysu'r AGLI am eu Bwriad i Ymarfer. O'r rhain, roedd 55 o fydwagedd yn gweithio mewn addysg, yn gwneud ymweliadau iechyd neu'n gweithio mewn practisau preifat, ac roedd ganddynt fynediad hefyd at oruchwyliaeth statudol yn ystod 2016 -17. (Tabl 1)

Gan ddefnyddio'r gymhareb a gyfrifwyd, wedi'i chymhwysu, y gymhareb ar gyfer Cymru gyfan, ar gyfartaledd, oedd 1:12.

Tabl 1 - Cymhareb Goruchwylwyr Bydwagedd i fydwagedd mewn byrddau iechyd yng Nghymru ar 31 Mawrth 2017

Bwrdd Iechyd	Bydwagedd (blwyddyn flaenorol)	Goruchwylwyr Bydwagedd cyfwerth ag amser llawn	Oriau Goruchwylwyr Bydwreigiaeth bob mis	Cymhareb wedi'i chymhwysu
Abertawe Bro Morgannwg	340 (296)	1.9	228	1:15
Aneurin Bevan	329 (314)	2.2	265	1:12
Betsi Cadwaladr	401 (388)	3.0	361	1:11

⁹ Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015) Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwagedd. <https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/nmc-publications/nmc-code-welsh.pdf>

¹⁰ Mae Rheol 9 Rheolau a Safonau Bydwagedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwylio bydwagedd.

Caerdydd a'r Fro	309 (275)	2.2	265	1:12
Cwm Taf	229 (200)	1.6	192	1:12
Hywel Dda	214 (202)	1.6	192	1:11
Powys	50 (44)	0.4	48	1:12

3.4 Penodi goruchwylwyr bydwragedd, dad-ddethol, ymddiswyddo a chaniatâd i fod yn absennol

Heb os nac oni bai, yr her fwyaf i ddarparu goruchwyliaeth statudol ledled y DU yn ystod y 12 mis diwethaf oedd cynnal y momentwm a'r ymrwymiad i'r gwaith tra bod y newid deddfwriaethol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar waith. Cafodd cwrs Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd Cymru Gyfan terfynol ei hwyluso'n llwyddiannus unwaith eto gan Brifysgol Abertawe ar ôl proses ddethol lem ym mis Ebrill 2016. Cafodd pob Goruchwyllydd Bydwragedd ei benodi yn ystod y flwyddyn i gymryd lle'r rhai hynny a oedd yn cael eu dad-ethol ar ôl llwyddo i gael eu penodi i swyddi uwch, a oedd yn dangos felly'r cyfle datblygu proffesiynol a ddarperir gan waith y Goruchwyllydd Bydwragedd. Defnyddiwyd hyblygrwydd y swydd tuag at ddiwedd y flwyddyn i wneud rhywfaint o waith trawsffiniol er mwyn sicrhau bod gan bob bwrdd iechedd ddigon o Oruchwylwyr Bydwragedd.

Tabl 2 – Tueddiadau penodi a dad-ethol ar gyfer y tair blynedd diwethaf

Y nifer o oruchwylwyr bydwragedd	2014-2015	2015-2016	2016-2017
A benodwyd yn ystod y flwyddyn	16	5	5
Wedi'u symud o'r swydd (dad-ddethol gan yr AGLI)	0	0	0
Wedi ymddiswyddo (dad-ddethol eu hunain)	85	4	6
Wedi'u gwahardd o'u swydd (gwaharddiad gan yr AGLI)	0	0	0
Wedi'u hatal o'r swydd (hunan-ataliad)	0	0	0
Wedi dechrau ar y cwrs paratoi (Ebrill)	5	6	5
Caniatâd i fod yn absennol	2	0	0
Cyfanswm y goruchwylwyr bydwragedd mewn swydd	16	17	17

3.5 Datblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus goruchwylwyr bydwagedd

(Datblygiad Proffesiynol Parhaus)

Er mwyn sicrhau bod goruchwylwyr bydwagedd yn cyflawni gofynion Rheol 8¹¹, roedd yr AGLI yn ymroddedig i sicrhau bod pob goruchwilydd bydwagedd a oedd yn cael ei benodi yng Nghymru yn gallu cael mynediad at o leiaf 6.5 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn ac yn cael cyfleoedd i ddiweddarau eu hymarfer.

Gwnaeth y cwrs Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd ddarparu cyfleoedd datblygu i ddarpar Oruchwylwyr Bydwagedd fodloni eu gofynion cofrestru statudol o ran cefnogi bydwagedd. Roedd hyn yn cynnwys hwyluso goruchwyliaeth grŵp a'r Adolygiad Goruchwyllo Blynnyddol fel dulliau o gyflenwi dysgu rhagweithiol. Hwyluswyd cyfleoedd pellach o ran systemau llywodraethu byrddau iechyd, ynghyd â gweithdai i ddatblygu sgiliau ysgrifennu adroddiadau a sgiliau ymchwiliol. Cafodd myfyrwyr y cwrs Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd gyfle hefyd i gysgodi mentor dynodedig a fyddai'n eu cynorthwyo a'u tywys drwy'r ymarfer o gymhwyso goruchwyliaeth o ddydd i ddydd yn ystod eu cyfnod hyfforddi.

Cafodd Goruchwylwyr Bydwagedd 'preswyl' hefyd eu darparu â chyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus, yn benodol o ran ysgrifennu adroddiadau a hwyluso dysgu gweithredol a goruchwyllo grŵp, gyda'r nod o ddatblygu'r sgiliau hyn pan fyddai'r oruchwyliaeth statudol yn dod i ben.

Mae nifer fawr o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus wedi'u cynnig i Oruchwylwyr Bydwagedd yn ystod y flwyddyn, ymhell y tu hwnt i'r gofyniad lleiaf o 6.5 awr y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gweithdai sgiliau
- Gweithdy Ymchwilio
- Gweithdy Ysgrifennu Adroddiadau
- Hwyluso Dysgu Gweithredol a goruchwyllo grŵp
- Dosbarthiadau Meistr CTG/STAN

Cynadleddau cenedlaethol, gan gynnwys:

- Cynhadledd Coleg Brenhinol y Bydwagedd, Harrogate 'Diogelwch, Safonau, Profiad'
- Cynhadledd Coleg Brenhinol y Bydwagedd ar Enedigaeth Gyfreithiol
- Cynhadledd Flynyddol Florence Nightingale
- Cymhwyso a Chydymffurfio â'r Dyletswydd Gonestrwydd
- Cynhadledd Genedigaeth mewn Cymdeithas Gyfoes y *British Journal of Midwifery*
- Lansio Obs Cymru
- Lansio Beichiogrwydd mwy Diogel

¹¹ Mae Rheol 8 safonau a rheolau Bydwagedd y Coleg Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofyniad ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus fel goruchwilydd bydwagedd.

Mae Goruchwylwyr Bydwagedd hefyd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r ffrydiau gwaith Cymru Gyfan fel rhan o'r gwaith sydd ar droed gan y Rhwydwaith Mamolaeth. Mae'r cyfleoedd hyn wedi cynnwys presenoldeb goruchwilydd bydwreigiaeth o ran ffrydiau gwaith i leihau Sepsis, Gwaedlif ôl-enedigol a marw-enedigaethau, sydd wedi'u hanelu at safoni'r gofal ledled Cymru, yn seiliedig ar wella diogelwch a deilliannau i famau a babanod.

Cynlluniodd a chyflwynodd y tîm AGLI a Goruchwylwyr Bydwagedd Gynhadledd flynyddol yr AGLI yn Llanfair-ym-Muallt. Thema'r gynhadledd oedd 'Gwylwch y Bwlch', a oedd yn canolbwyntio ar ddileu goruchwyllo statudol a sicrhau bod y model newydd yn parhau i gynnig cymorth i fydwragedd mewn modd sy'n sicrhau y cynhelir diogelwch y cyhoedd.

3.6 Dulliau ar gyfer mynediad parhaus at oruchwylwyr bydwagedd

Mae Rheol 9 Rheolau a Safonau'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofynion ar gyfer goruchwyllo bydwagedd, ac mae'n nodi y bydd yr AGLI yn sicrhau:

- Bod gan bob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal oruchwilydd bydwagedd wedi ei enwi
- Bod pob goruchwilydd bydwagedd yn cyfarfod pob bydwraig y mae'n oruchwilydd bydwagedd a enwir ar ei chyfer o leiaf unwaith y flwyddyn, i adolygu ymarfer y fydwrraig a nodi ei hanghenion hyfforddiant
- Bod pob goruchwilydd bydwagedd yn ei ardal yn cadw cofnodion o'i weithgareddau goruchwyllo, gan gynnwys unrhyw gyfarfodydd gyda bydwraig
- Bod gan bob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal fynediad 24 awr at oruchwilydd bydwagedd.

Neilltuwyd goruchwilydd bydwagedd a enwyd i bob bydwraig ar ddechrau ei chyflogaeth. Os oedd y fydwrraig yn hunangyflogedig, byddai'r AGLI fel rheol yn gofyn i oruchwilydd bydwagedd a oedd yn byw a/neu'n gweithio'n agos at leoliad y fydwrraig, neu a oedd yn gallu teithio i'r lleoliad hwnnw, gynnwys y fydwrraig hunangyflogedig yn ei llwyth gwaith goruchwyllo. Hysbyswyd pob bydwraig a phob goruchwilydd bydwagedd y gallent wneud cais i newid eu goruchwilydd bydwagedd neu eu bydwraig, os nad oedd y berthynas yn effeithiol i'r naill ochr neu'r llall. Fel rhan o'u gofyniad proffesiynol eu hunain, gwnaeth pob Goruchwilydd Bydwagedd gyrchu Goruchwilydd Bydwagedd o'r tu allan i'w Byrddau Iechyd perthnasol.

Yn ystod 2016-17, parhaodd yr AGLI i fonitro cronfa ddata'r AGLI bob chwarter ac, ar sail ad hoc, i sicrhau bod gan bob bydwraig yng Nghymru oruchwilydd bydwagedd a enwyd. Gallwn hysbysu bod pob bydwraig a oedd yn ymarfer yng Nghymru yn ystod 2015-16 wedi bodloni'r gofyniad hwn. Defnyddiodd yr AGLI y gronfa ddata i fonitro hefyd a oedd adolygiadau goruchwyllo blynyddol wedi'u cynnal. Cynhaliwyd dadansoddiad o gronfa ddata'r AGLI bob chwarter i fonitro cydymffurfiaid ag adolygiadau goruchwyllo blynyddol. Ar 31 Mawrth 2017, gwelwyd tystiolaeth nad oedd timau'r Goruchwylwyr Bydwagedd wedi cydymffurfio 100% â'r safon hon. Adroddwyd mai'r prif reswm dros hyn oedd bod llai o ymglymiad â goruchwylloeth,

yn bennaf gan fydwragedd a oedd yn gweithio mewn sefydliadau addysgol, neu pan oedd y Goruchwylydd Bydwragedd wedi bod ar absenoldeb salwch dirybudd yn ystod deufis olaf y statud.

Mae goruchwyliaeth grŵp a dysgu gweithredol wedi parhau i gael ei ystyried yn llwyddiant heb ei ail. Mae'n cefnogi dysgu a chymorth gan gyfoedion yn ogystal ag Aiddilysu¹², gan ganolbwyntio ar ddatblygu'r gydran hon yn y model Goruchwyliaeth Glinigol Bydwragedd newydd ar ôl y statud.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Goruchwylwyr Bydwragedd gyfarfodydd misol â'u Pennaeth Bydwreigiaeth. Bob chwarter, roedd y cyfarfod hefyd yn cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, a oedd yn adrodd ar weithgarwch yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol drwy adroddiad monitro chwarterol. Cynhaliwyd trafodaethau ar faterion y Bwrdd Iechyd a oedd yn effeithio ar ymarfer bydwreigiaeth, gan gynnwys cydymffurfio â gofynion rheoliadol y Coleg Nyrsio a Bydwreigiaeth, ymchwiliadau goruchwyllo parhaus, a rhaglenni adfer. Defnyddiodd yr AGLI y gronfa ddata i gyhoeddi adroddiadau ar weithgareddau Goruchwylwyr Bydwragedd, a oedd yn galluogi gwaith monitro perfformiad cadarn.

Roedd modd i ddefnyddwyr gwasanaeth a bydwragedd gael mynediad 24 awr at Oruchwylwyr Bydwragedd ar rif ar-alwad i Gymru, a oedd yn darparu cyngor ar faterion a oedd yn ymwneud â goruchwyllo a safonau proffesiynol. Cafodd tueddiadau a themâu'r galwadau eu coladu mewn adroddiadau archwilio chwe misol, a oedd wedyn yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod perfformiad misol y Goruchwylwyr Bydwragedd a'u rhannu â phob Pennaeth Bydwragedd. Roedd y templed ar-alwad yn cynnwys cais i gysylltu â galwyr o fewn 48 awr pe bai'n well ganddynt siarad yn Gymraeg. Dangosodd yr adroddiad archwilio 6 misol diwethaf bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn derbyn llawer llai o alwadau, ac roedd y mwyafrif o'r rhain yn briodol ac nid yn gais am gyngor clinigol fel y bu'r achos cyn hyn.

Dangosodd archwiliadau goruchwyllo pob bwrdd iechyd yn nhymor yr Hydref welliant o ran gwefannau lleol yn cyfeirio at Oruchwyliaeth Bydwragedd a mynediad at y rhif ar-alwad. Fodd bynnag, roedd yn siomedig gweld rhywfaint o ddriswch ynghylch galwadau gan adolygwyr lleol yn gofyn am gael siarad â Goruchwylydd Bydwragedd trwy'r switsfyrddau. Gwelwyd diffyg ymwybyddiaeth llwyr mewn rhai achosion, er bod cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith i fynd i'r afael â'r mater hwn flwyddyn yn gynharach. Serch hyn, aethpwyd i'r afael â'r materion hyn ar unwaith trwy'r Pennaeth Bydwragedd a'r timau Goruchwyllo Bydwragedd lleol.

Estynnwyd gwahoddiad i'r Goruchwylwyr Bydwragedd gwrdd â'r bydwragedd dan hyfforddiant yn y pedwar sefydliad addysg cymeradwy: Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru. Roedd yr adborth a dderbyniwyd gan y bydwragedd dan hyfforddiant a'r darlithwyr yn y prifysgolion yn gadarnhaol ar y cyfan. Cydnabu timau'r Goruchwylwyr Bydwragedd nad oedd materion safonol yn cael eu trafod, felly ffurfiwyd gweithgor Goruchwylwyr Bydwragedd. O ganlyniad, rhoddwyd cynllun diwygiedig ar waith o ran y materion allweddol sy'n berthnasol i oruchwyliaeth er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i fydwragedd

¹² Aiddilysu <https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/revalidation/how-to-revalidate-booklet-welsh-version.pdf>

dan hyfforddiant ym mhob rhan o Gymru. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn cynnwys datblygu cynlluniau 'addysgu' a'u rhannu gan y Goruchwylwyr Bydwagedd fel offeryn cyfeirio pan fyddent yn cwrdd â myfyrwyr.

Cynhaliodd Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI gyfarfodydd rheoli perfformiad misol â Goruchwylwyr Bydwagedd o bob rhan o Gymru. Roedd y cyfarfodydd yn ymwneud yn bennaf â rheoli'r gydymffurfiaeth â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a nodwyd yn y fanyleb gwasanaeth, a rhoddodd gyfle i'r Goruchwylwyr Bydwagedd ddatblygu gwaith tîm ac i ddefnyddio'r rhwydwaith cefnogol a ddarparwyd gan y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd Cymru Gyfan.

3.7 Ymgysylltu â sefydliadau addysg cymeradwy

Ceir pedwar Sefydliad Addysg Cymeradwy yng Nghymru, ac mae pob un yn cynnig addysg bydwreigiaeth cyn ac ar ôl cofrestru. Yn ystod y flwyddyn, bu goruchwylwyr bydwagedd wrthi'n ymgysylltu â phob Sefydliad Addysg Cymeradwy i sicrhau bod bydwagedd dan hyfforddiant yn gyfarwydd â'r cysyniad o weithio o fewn y Cod (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2015) a phwysigrwydd hyn wrth baratoi ar gyfer cofrestru fel bydwaig. Cynigiwyd nifer o gyfleoedd i fyfyrwyr brofi goruchwyliaeth ar waith, megis mynd i sesiwn oruchwyllo grŵp gyda bydwagedd eraill a chwrdd â Goruchwylwyr Bydwagedd ddwywaith y flwyddyn mewn safle prifysgol.

Yn dilyn Adolygiad Eithriadol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCU) yn ystod 2015¹³, cafodd bydwagedd dan hyfforddiant eu symud o'r amgylchedd clinigol yn Ysbyty Glan Clwyd. Darparodd yr AGLI a'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd gymorth i fydwragedd a oedd yn ymarfer yn ogystal ag i'r Pennaeth Bydwagedd a'r Bydwagedd Arweiniol ar gyfer Addysg, ac mae myfyrwyr wedi'u hailgyflwyno'n raddol ers mis Medi 2016.

Mae Goruchwylwyr Bydwagedd wedi parhau i gynnal sesiynau 'te parti' i archwilio nodiadau gyda bydwagedd dan hyfforddiant ac wedi parhau i gefnogi digwyddiadau cymdeithas y myfyrwyr ac maen nhw wedi cynnal sesiynau addysgu mewn cydweithrediad â mentrau'r bwrdd iechyd sydd wedi'u mynychu gan fydwragedd dan hyfforddiant. Roedd Goruchwylwyr Bydwagedd yr AGLI hefyd wedi cwrdd â myfyrwyr yn ystod y broses archwilio, mewn ymweliadau chwarterol â'r byrddau iechyd ac mewn gweithdai cydweithredol ar gyfer Goruchwylwyr Bydwagedd a darpar Oruchwylwyr Bydwagedd fel rhan o weithgareddau Datblygiad Proffesiynol Parhaus cyson.

Parhawyd i fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Bydwagedd Arweiniol ar gyfer Addysg trwy nifer o weithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys grŵp chwarterol y Penaethiaid Addysg Bydwreigiaeth ac, yn benodol, fel rhan o'r grŵp Tasglu, wrth gynllunio'r model Goruchwyliaeth Glinigol Bydwagedd newydd.

¹³<https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/midwiferyextraordinaryreviewreports/2015/extraordinary-lsa-review-of-performance---hiw-welsh.pdf>

4. Adran 2

4.1 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y broses o oruchwyllo

Mae gwaith yr adolygwyr llewg yn ystod 2016-17 wedi canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- Archwilio goruchwyllo ar draws pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru
- Mynychu a chyflwyno Cynhadledd Wanwyn yr AGLI yn 2016
- Cynrychiolaeth ar y grŵp Tasglu yn gweithio ar y model newydd o oruchwyllo anstatudol ar gyfer bydwragedd

Canolbwyntiodd proses archwilio 2016-17 ar y meysydd canlynol:

- Profiadau'r defnyddwyr gwasanaeth o oruchwyllo
- Pa mor hygyrch yw'r goruchwyllo i ddefnyddwyr gwasanaeth
- Effeithiolrwydd goruchwyllo grŵp a'r DPP, gan gynnwys adolygu ymwybyddiaeth bydwragedd o broses ail-ddilysu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Ymwybyddiaeth bydwragedd o ran dileu goruchwyllo statudol a'r model arfaethedig newydd o Oruchwyllo Glinigol Bydwragedd
- Pryderon y Goruchwyllo Bydwragedd presennol ynghylch y newidiadau arfaethedig.

Unwaith eto, roedd ymwybyddiaeth o oruchwyllo ymhlith defnyddwyr gwasanaeth yn parhau i fod yn isel, gyda'r mwyafrif yn anymwybodol o oruchwyllo. Gwelwyd ychydig o dystiolaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cysylltu â Goruchwyllo Bydwragedd ynghylch dewisiadau geni y tu allan i'r cynlluniau gofal a argymhellwyd. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod gan lawer o'r byrddau iechyd brosesau eraill ar waith i gefnogi menywod o dan yr amgylchiadau hyn, megis clinigau Bydwragedd Ymgynghorol.

O ran hygyrchedd, roedd adolygwyr llewg yn gallu adrodd bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran hygyrchedd hysbysfyrddau goruchwyllo yn y meysydd clinigol ac roedd y mwyafrif ohonynt yn arddangos y rhif ar-alwad. Fodd bynnag, serch argymhellion archwiliad y flwyddyn flaenorol, roedd llawer o switsfyrddau'r bwrdd iechyd yn ymddangos naill ai wedi'u drysu neu'n anymwybodol o rif ar-alwad 24 awr y Goruchwyllo Bydwragedd.

Cynhadledd Wanwyn 2016 yr AGLI

Roedd presenoldeb yr adolygwyr llewg yng Nghynhadledd Wanwyn yr AGLI ym mis Ebrill 2016 yn gyfle iddynt arwain gweithlu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a oedd yn ymwneud â symud o oruchwyllo statudol i fodel a arweinir gan gyflogwyr. Defnyddiwyd hwn i hysbysu'r Tasglu a oedd yn cynllunio'r model newydd, gan sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau bod eu llais yn parhau i gael ei chlywed, ond mewn gwahanol ffordd.

Tasglu

Bu i'r adolygwr lleyg cynrychioliadol yn y Tasglu a arweiniwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio a oedd yn anelu at gynllunio'r model Goruchwyliaeth Glinigol newydd i Fydwragedd ddarparu mewnlwg gwerthfawr o safbwynt y defnyddwyr.

4.2 Trosolwg o weithgarwch archwilio'r AGLI

Trwy Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth¹⁴, roedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gallu sicrhau bod yr AGLI yn parhau i fodloni'r Rheolau a'r Safonau. Roedd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn darparu modd strwythuredig o adolygu'r AGLI er mwyn dangos effeithiolrwydd goruchwyliaeth statudol bydwragedd ac arferion da, ac amlygu meysydd o bryder. Gwnaeth adolygiadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ystyried hunan-adroddiadau'r AGLI ac ystyriwyd y wybodaeth o ffynonellau amrywiol a allai amlygu risgiau posibl a oedd yn gysylltiedig â goruchwyliaeth bydwreigiaeth.

Ym mis Mai 2016, cyflwynodd yr AGLI adroddiad eithriadol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn dilyn nifer o 'ddigwyddiadau clwstr' a gododd gryn dipyn o bryder ynghylch diogelwch y cyhoedd a diogelwch babanod o fewn yr uned. Roedd hyn yn dilyn saith digwyddiad rhwng mis Chwefror a mis Ebrill, lle cafodd babanod eu derbyn i unedau newyddenedigol lefel 3 i gael triniaeth oeri ragnodedig ar ôl cael eu geni mewn cyflwr gwael gyda sgorau Apgar isel. Dilynwyd hyn gan ddau ddigwyddiad arall ym mis Mai 2016, pan gafodd dwy fenyw farw-enedigaethau. Datblygwyd cynllun gweithredu cadarn gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd fel rhan o adolygiad aml-ddisgyblaethol a oedd yn cynnwys yr AGLI. Cynhaliwyd ymchwiliadau ffurfiol i 4 o'r achosion hyn, a chafodd gweddill yr achosion eu rheoli gan y Bwrdd Iechyd gydag ymarferion 'bwrdd gwaith' mewnol a gefnogwyd gan y tîm Goruchwyllo Bydwragedd Lleol. Pan gyflwynwyd yr adroddiad Eithriadol, ni wnaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth unrhyw argymhelliad ar gyfer Adolygiad Eithriadol, ond fe gynhaliodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ymweliad arfaethedig â'r Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2017.

Gwnaeth yr AGLI barhau i fonitro'r cynnydd o ran y cynllun gweithredu a llwyddodd i ddal ati i fonitro a gwerthuso'r cynnydd a wnaed ac i ddarparu sicrwydd i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o ran cwblhau'r cynllun gweithredu.

Parhaodd y broses archwilio flynyddol yn 2016-17 a defnyddiodd yr AGLI y dull gweithredu tîm, gan gynnwys yr adolygwyr lleyg fel rhan o'r tîm archwilio. Sicrhaodd hyn fod pwyslais clir ar safbwynt y defnyddiwr, yn unol â Rheol 13 o Reolau a Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer Bydwragedd (2012)¹⁵, a oedd yn argymhell cynnwys menywod sy'n defnyddio gwasanaethau bydwragedd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd yr oruchwyliaeth. Cynhaliwyd adolygiad cyfoedion, gyda Goruchwylwyr Bydwragedd allanol yn rhan o'r archwiliad mewn gwahanol fwrdd

¹⁴ Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

¹⁵ Mae Rheol 13 o'r Rheolaeth a Safonau Bydwreigiaeth (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012) yn argymhell bod defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o'r gwaith o fonitro goruchwyliaeth bydwragedd a chynorthwyo ag archwiliadau blynyddol

iechyd i'r un yr oeddent yn cael ei gyflogi o'i fewn, a oedd yn sicrhau dull o edrych ar bethau o'r newydd. Arweiniwyd un archwiliad bwrdd iechyd gan Oruchwylydd Bydwagedd AGLI o Loegr. Y rheswm dros hyn oedd bod Goruchwylydd Bydwagedd newydd wedi'i benodi i'r AGLI a oedd wedi bod yn Oruchwylydd Bydwagedd o fewn y bwrdd iechyd hwnnw yn union cyn y cynhaliwyd yr archwiliad. Byddai hyn yn sicrhau mwy o wrthrychedd wrth gwblhau'r archwiliad.

Cyn yr archwiliad, cafodd y Goruchwylwyr Bydwagedd gyfle i adolygu eu tystiolaeth eu hunain o gydymffurfiaeth â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, gan ganolbwyntio ar adolygu argymhellion archwiliad y flwyddyn flaenorol. Gofynnwyd iddynt yn benodol glustnodi unrhyw ymarfer amlwg o fewn eu byrddau iechyd eu hunain i'w rhannu â'r tîm archwilio a'r cynrychiolwyr sefydliadol, yn ogystal â thystiolaeth o weithio cydweithredol fel modd o symud trwy'r cyfnod pontio i mewn i'r model a arweinir gan gyflogwyr.

Gellir gweld yr adroddiad llawn i bob bwrdd iechyd ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru¹⁶.

4.3 Polisiâu cenedlaethol a lleol yn ymwneud â goruchwilio

Cenedlaethol

Yn ystod 2016-17, adolygwyd a diweddarwyd yr holl bolisiau a chanllawiau cenedlaethol gan Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y DU. Cafodd y polisiâu a'r canllawiau cenedlaethol eu llunio er mwyn cefnogi swyddogion bydwreigiaeth yr awdurdodau goruchwilio lleol a goruchwylwyr bydwagedd wrth eu gwaith. Roedd y DU yn canolbwyntio ar sicrhau tegwch a chysondeb, o ran proses a chanlyniadau, lle bynnag yr oedd gweithgarwch goruchwilio yn cael ei gyflawni. Cyhoeddwyd y polisiâu a'r canllawiau cenedlaethol ar wefan Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwilio Lleol y DU¹⁷.

Lleol

Cyflwynodd yr AGLI yng Nghymru dempled archwilio newydd ar gyfer Goruchwylwyr Bydwagedd gyda'r nod o wella cydymffurfiaeth â'r amserlen archwilio a argymhellwyd.

¹⁶ <http://hiw.org.uk/splash?orig=/>

¹⁷ Gwefan Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwilio Lleol;
<http://www.isamoforumuk.scot.nhs.uk/>

5. Adran 3

5.1 Sicrhau y cynhelir ymchwiliadau i ymarfer is-optimaidd

Cynhaliwyd ymchwiliadau goruchwylio o ganlyniad i adolygiad o achos, yn dilyn archwiliad rheolaidd o gofnodion neu drwy dulliau cwynion y bwrdd iechyd, lle y codwyd amheuan ynghylch safonau ymarfer bydwreigiaeth.

Roedd pob digwyddiad clinigol difrifol yn destun adolygiad achos gan oruchwylydd bydwragedd. Byddai'r Goruchwylydd Bydwragedd yn cofnodi'r adolygiad o achosion gan ddefnyddio fformat SBAR¹⁸, neu dempled adolygu achosion Fforwm AGLI y DU, pa un bynnag a ystyriwyd yn briodol ar gyfer casglu gwybodaeth a oedd yn berthnasol i'r digwyddiad.

Byddai'r Goruchwylydd Bydwragedd yn asesu a oedd angen uwchraddio'r digwyddiad i'r AGLI gan ddefnyddio 'Rhestr Sbarduno Hysbysiad am Ddigwyddiad yr AGLI'. Roedd angen cwblhau "Pecyn Offer Penderfyniadau" Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y DU ar gyfer pob digwyddiad a hysbyswyd yn unol â rhestr sbarduno hysbysiad am ddigwyddiad. Roedd y pecyn yn galluogi'r Goruchwylydd Bydwragedd i asesu'r ymarfer bydwreigiaeth a ddarparwyd yn unol â'r rheolau a safonau Bydwragedd (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012,) a Chod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015). Ar ôl cwblhau'r pecyn offer, byddai'r Goruchwylydd Bydwragedd yn cyfeirio'r digwyddiad ac yn ei drafod â Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, a fyddai wedyn yn ystyried a oedd angen cynnal ymchwiliad goruchwylio allanol llawn, yn unol â chanllawiau Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y DU. Cynhaliwyd ymchwiliadau goruchwylio yng Nghymru gan oruchwylydd bydwragedd nad oedd yn cael ei gyflogi gan y bwrdd iechyd, a chynhaliwyd yr ymchwiliad i ddarparu lefel o graffu allanol i'r broses.

Cafodd ymchwiliadau a oedd angen ymchwiliad goruchwyliol eu cychwyn gan y bwrdd iechyd, gyda mewnbwn gan Oruchwylwyr Bydwragedd o fis Ionawr 2017 ymlaen, ar ôl i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gyhoeddi canllawiau ynghylch y cyfnod pontio. Roedd hon yn broses gydweithredol er mwyn sicrhau symud llyfn i'r model a arweinir gan gyflogwyr pan fyddai'r statud yn dod i ben.

Cafodd 19 o ymchwiliadau goruchwylio eu cychwyn yn ystod blwyddyn 2016-17, ac mae 4 ymchwiliad cydweithredol pellach wedi'u harwain gan y byrddau iechyd unigol ers mis Ionawr 2017. Cynhaliwyd pob ymchwiliad goruchwylio yn unol â chanllawiau Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI. Gwelwyd 40 o ymchwiliadau goruchwylio yn ystod y flwyddyn flaenorol, sy'n dangos gostyngiad mawr yn y cyfanswm.

Mae cwblhau'r ymchwiliadau yn unol â'r 45 o ddiwrnodau a argymhellwyd gan Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y DU wedi bod yn heriol. O ganlyniad i'r methiant i gydymffurfio â'r amserlen 45 diwrnod a argymhellwyd ar draws y DU yn y blynyddoedd cynt, cynyddodd Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y DU yr

¹⁸ Gwella dulliau cyfathrebu clinigol gan ddefnyddio SBAR (Sefyllfa, Cefndir, Gweithredu, Adolygu) <http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/T4I%20%283%29%20SBAR.pdf>

amserlen i 60 o ddiwrnodau o 2016 ymlaen. Ailstrwythurodd yr AGLI yng Nghymru ei broses i gydymffurfio â chanllawiau Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth y DU, a pharhau i ganolbwyntio ar 45 o ddiwrnodau ar gyfer cwblhau ymchwiliadau, gydag uchafswm o 60 o ddiwrnodau ar gyfer cwblhau pob adroddiad a chasgliad.

O'r 19 o ymchwiliadau goruchwylio a gynhaliwyd, cafodd 32% eu cwblhau mewn llai na 45 o ddiwrnodau, 32% eu cwblhau rhwng 45 a 60 o ddiwrnodau a 36% eu cwblhau mewn mwy na 60 o ddiwrnodau. Dangosodd hyn bod 64% ohonynt yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen 60 diwrnod ddiwygiedig yn gyffredinol, sydd ychydig yn uwch na'r flwyddyn gynt. Roedd yr ymchwiliadau cydweithredol a arweiniwyd gan y bwrdd iechyd yn parhau i fod ar droed ar 31 Mawrth 2017.

Rhodddwyd nifer o resymau dros yr oedi mewn cydymffurfiaeth â'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cwblhau adroddiadau ymchwiliadau, gan gynnwys maint y cymorth gweinyddol o oedd ar gael i gymryd nodiadau mewn cyfweiliadau, teipio a dychwelyd trawsgrifiadau o gyfweiliadau i a chan fydwragedd, salwch ac absenoldeb ymhlith bydwagedd, a mynediad Goruchwylwyr Bydwagedd at systemau ac offer TG Llywodraeth Cymru. Roedd diffyg profiad perthynol y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd hefyd wedi effeithio ar brydlondeb yr ymchwiliadau.

Nododd Rheol 10¹⁹ o'r Rheolau a Safonau Bydwagedd 4 deiliant posibl ar gyfer ymchwiliadau goruchwylio, sef:

1. Dim achos pellach
2. Cynllun Gweithredu Lleol
3. Rhaglen Ymarfer yr AGLI
4. Atgyfeirio at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Yn ystod 2016-17, dyma oedd y deilliannau ar gyfer y bydwagedd:

- dim achos pellach i 11 ohonynt
- Cynlluniau Gweithredu Lleol i 26 ohonynt
- Rhaglen Ymarfer yr AGLI i 5 ohonynt
- 1 atgyfeiriad i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Gwaharddwyd un fydwraig rhag ymarfer, ac arweiniodd hyn at yr atgyfeiriad i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodwyd uchod. Yn ogystal â hyn, gwnaeth yr AGLI bum atgyfeiriad pellach i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd un yn ymwneud â bydwraig a gafodd ei hatgyfeirio yn dilyn ymchwiliad a gwblhawyd y flwyddyn gynt ac un fydwraig yn cael ei hatgyfeirio wedi iddi ymddiswyddo ar ôl i'w chyflogwr ddatgelu pryderon iechyd difrifol a oedd â'r potensial i effeithio ar ei hymarfer. Daeth y tri atgyfeiriad arall i fod o ganlyniad i fydwragedd yn ymddeol gyda Rhaglenni Ymarfer AGLI cyfredol ac, er nad oeddent yn ymarfer mwyach, gwnaethpwyd yr atgyfeiriadau yn sgil diddymiad swyddogaeth yr AGLI.

Ar 31 Mawrth 2017, roedd dwy fydwraig wrthi'n gwneud Rhaglen Ymarfer yr AGLI ac roedd dwy fydwraig arall ar fin dechrau Rhaglen Ymarfer yr AGLI. Byddai'r bwrdd

¹⁹ Rheol 10 o reolau a safonau Bydwagedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)

iechyd yn monitro'r ddwy a'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i'r Pennaeth Bydwreigiaeth perthnasol.

Roedd angen cefnogaeth barhaus Goruchwylwyr Bydwagedd ar bob proses adferol yn ogystal â gwaith monitro yn y byrddau iechyd. Roedd angen cymorth Pennaeth Bydwreigiaeth yn benodol pan amlygwyd pryderon mwy difrifol a oedd yn arwain at Raglen Ymarfer yr AGLI. Parhaodd yr AGLI i hyrwyddo proses adfer fwy cydweithredol, yn rhannol yn barod ar gyfer symud a throsglwyddo i'r byrddau iechyd. Nod y prosesau cydweithredol hefyd oedd hwyluso'r broses o adfer ymarfer i fydwragedd yn ogystal â chryfhau trefniadau llywodraethu cyfredol sy'n ceisio lleihau risgiau pellach i famau a babanod.

Mae'r prif themâu a thueddiadau a nodwyd y flwyddyn hon yn ymwneud â:

- Cydnabod bod CTG (lles y ffetws) yn gwaethygu
- Methiant i uwchgyfeirio pryderon yn briodol
- Methiant i adnabod dirywiad yng nghyflwr y fam
- Cadw cofnodion gwael
- Methiant i gyfathrebu'n effeithiol â chydweithwyr a menywod
- Methiant i chwilio am gymorth obstetreg
- Gweithio y tu allan i gwmpas yr ymarfer

Rhannwyd pob adroddiad goruchwyllo â'r Pennaeth Bydwreigiaeth perthnasol gyda phwyslais penodol ar bryderon ynglŷn â systemau a llywodraethu clinigol. Cynhaliwyd trafodaethau ar ymchwiliadau a oedd yn parhau i fod ar waith a chynhaliwyd rhaglenni adfer bob mis ar lefel leol rhwng y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm Goruchwylwyr Bydwagedd. Gallai cynlluniau gweithredu sefydliadol gael eu monitro mewn cyfarfodydd chwarterol pan oedd Swyddog Bydwagedd yr AGLI yn bresennol.

Roedd cynnwys menywod a'u teuluoedd gymaint â phosibl ym mhroses ymchwilio'r AGLI

yn parhau i fod yn arfer safonol i'r AGLI. Byddai'r Goruchwylwyr Bydwagedd yn ysgrifennu at fenywod ar ddechrau ymchwiliad i ddarparu gwybodaeth am yr ymchwiliad a'u gwahodd i gyfrannu at yr ymchwiliad. Roedd hyn yn unol â safon Dyletswydd Gonestrwydd yr AGLI²⁰ (2015), a gyflwynwyd fel ymateb i adroddiad Francis²¹ (2013).

5.2 Cwynion ynglŷn â chyflawni'r swyddogaeth oruchwyllo

Ymdriniwyd â chwynion yn erbyn yr AGLI a/neu Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn unol â gweithdrefnau cwynion Llywodraeth Cymru neu drwy broses apelio'r AGLI, fel yr oedd yn briodol. Disgrifir y broses o ymdrin â chwynion ac apeliadau ym

²⁰ Didwylledd a gonestrwydd pan fydd pethau'n mynd o'i le. Y dyletswydd gonestrwydd proffesiynol. <https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/nmc-publications/openness-and-honesty-professional-duty-ofcandour.pdf>

²¹ Adroddiad ar Ymholiad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford. Cadeiriwyd gan Robert Francis CF https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/279124/0947.pdf

mholisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y DU²² 'Cwynion yn erbyn Goruchwylydd Bydwagedd neu Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI'. Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion ffurfiol i'r AGLI yn ystod 2016-17.

Codwyd un gwyn anffurfiol o ran y broses goruchwylio ymchwil, a chafodd hon ei datrys yn dilyn cyfarfodydd rhwng y fydwraig, ei chynrychiolydd staff, y Goruchwylydd Bydwagedd a Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI.

²² Polisi Fforwm Goruchwylwyr Bydwagedd AGLI y DU (2013) ar gyfer gwneud cwyn yn erbyn Goruchwylydd Bydwagedd neu Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI
<http://www.lsamoforumuk.scot.nhs.uk/policies-guidelines.aspx>

6. Adran 4

6.1 Arfer Nodedig ac Arloesol

- Mae tystiolaeth dda o weithio cydweithredol yn ABU, yn enwedig o ran cefnogi bydwragedd sydd newydd gymhwyso a'r adolygiad tair cangen gyda'r rhaglen Breceptoriaeth
- Defnydd Goruchwylwyr Bydwragedd ABU o 'lyfr gwirio' fel modd o 'gau'r ddolen' ar unrhyw gamau gweithredu adferol ar gyfer bydwragedd
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd BCU wedi cyd-lywyddu 'diwrnod cwrdd i ffwrdd' i fydwragedd sydd newydd gymhwyso, gyda chymorth AGIC
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd BCU wedi gwneud cyflwyniad yng Nghynhadledd Genedigaethau Gwell y Bwrdd Iechyd
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Caerdydd a'r Fro wedi rhoi offeryn cadw cofnodion ar waith dros Gymru gyfan er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Caerdydd a'r Fro wedi gwneud cyflwyniadau rheolaidd yn niwrnodau hyfforddi gorfodol y Bwrdd Iechyd, gan drafod y prif themâu a amlygwyd yn Adroddiad Morecombe Bay²³
- Mae tîm Goruchwylwyr Bydwragedd Cymru gyfan wedi datblygu rhaglen safonol ar gyfer sesiynau arfaethedig gyda bydwragedd dan hyfforddiant er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfartal yn cael ei rhannu
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Cwm Taf wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r tîm diogelu i wella materion hysbysu genedigaeth ar gyfer achosion o enedigaethau rhydd.
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Caerdydd a'r Fro wedi rhoi cyflwyniadau i fydwragedd ar y prif faterion o ofid a nodwyd gan fydwragedd yn eu Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain wedi cynnwys, 'Gweithio gyda Doulas' a 'Cefnogi menywod sy'n gofyn am ofal y tu allan i'r canllawiau a argymhellwyd'. Rhannwyd y cyflwyniadau hyn â'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd Cymru Gyfan
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Hywel Dda wedi cyd-lywyddu sesiwn gyda Choleg Brenhinol y Bydwragedd
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd ABM wedi bod yn gweithio'n agos â'r fydwraig datblygu practis gan fynd i'r afael â'r prif broblemau hyfforddi i fydwragedd
- Nodwyd fod Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn hyblyg, yn gefnogol ac yn gallu addasu, er gwaethaf yr ardal ddaearyddol fawr y maen nhw'n gwasanaethu
- Nododd yr adroddiadau archwilio bod pob un o dimau'r Goruchwylwyr Bydwragedd o fewn y Byrddau Iechyd yn gweithio'n fwy cydweithredol, yn enwedig o fewn llywodraethu clinigol

²³ Adroddiad ar ymchwiliad Morecambe Bay. Bill Kirkup CBE. Mawrth 2015

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/408480/47487_MBI_Accessible_v0.1.p

- Nodwyd fod pob un o dimau'r Goruchwylwyr Bydwagedd wedi cynyddu eu gwelededd a'u hygyrchedd i fydwagedd yn eu Byrddau Iechyd perthnasol
- Mae'r Goruchwylwyr Bydwagedd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r Tasglu, o ran datblygu'r model Goruchwyliaeth Glinigol newydd i Fydwagedd, gan sicrhau bod prif elfennau'r model 'Diogelu'r Dyfodol' wedi'u cynnwys yn y model a arweinir gan gyflogwyr.

6.2 Rhannu arfer da

Yn ystod 2016-17, mae'r AGLI wedi cynnal dwy apêl allanol ar ran Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y DU a chynhaliodd Swyddog Bydwreigiaeth allanol o'r AGLI yr archwiliad blynyddol mewn un bwrdd iechyd yng Nghymru, a oedd yn gyfle i rannu arfer da.

6.3 Edrych i'r dyfodol

O 1 Ebrill 2017, mae swyddogaeth yr AGLI wedi dod i ben ac mae'r byrddau iechyd yn cymryd y cyfrifoldeb dros Oruchwyliaeth Glinigol Bydwagedd. Treuliwyd llawer o'r flwyddyn ddiwethaf yn ceisio cynnal rôl a swyddogaeth yr AGLI, yn unol â safonau'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth, a pharatoi ar gyfer y newid deddfwriaethol a ddaeth i rym ar 1 Ebrill.

Bydd y model newydd yn sicrhau bod bydwagedd yn parhau i gael eu cefnogi yn eu hymarfer dyddiol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i fod yn ddiogel, heb y galwadau cystadleuol a roddir arnynt wrth orfod wynebu ymchwiliadau goruchwyllo.

Hoffai'r AGLI ddiolch i'r holl randdeiliaid sydd wedi gweithio gyda'r AGLI a'r Goruchwylwyr Bydwagedd a'u cefnogi, ac mae'n edrych ymlaen at symud i'r model newydd a fydd yn diogelu dyfodol goruchwyliaeth bydwreigiaeth mewn modd sy'n ystyrlon ac yn gefnogol i fydwagedd, er mwyn hybu rhagoriaeth mewn safonau proffesiynol a fydd yn gwella diogelwch y cyhoedd.